Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (CYFFORDD PLOUGH LANE, ASTON, GLANNAU DYFRDWY, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2014

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo gwaith cynnal a chadw cylchol arferol yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A494 wrth Gyffordd Plough Lane, Aston, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a ganlyn, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 15 Mai 2014 ac yn parhau tan 06:00 o'r gloch ar 16 Mai 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, a phob beiciwr a cherddwr, rhag mynd ar y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael y gefnffordd wrth Gyffordd Plough Lane, Aston, Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint.

Y llwybr amgen ar gyfer traffig sydd am ymadael â'r gefnffordd fydd aros ar y gefnffordd a pharhau i Gyfnewidfa Queensferry. Ymadael â'r gefnffordd ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain ac ailymuno â'r gefnffordd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin. Mynd tua'r gorllewin i Gyffordd Aston ac ymadael â'r gefnffordd.

Y llwybr amgen ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Aston Uchaf ac sydd am ymuno â'r gefnffordd fydd mynd ar Aston Road tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Queensferry ac ymuno â'r gefnffordd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2014).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (PLOUGH LANE JUNCTION, ASTON, DEESIDE, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2014

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to safeguard road users and workforce whilst routine cyclic maintenance works are undertaken on the A494 trunk road at Plough Lane Junction, Aston, Deeside, Flintshire.

The following prohibitions, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 15 May 2014 and remain until 06:00 hours on 16 May 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, cyclists and pedestrians from proceeding in the entire lengths of the on and off slips road of the trunk road at Plough Lane Junction, Aston, Deeside in the County of Flintshire.

The alternative route for traffic wishing to leave the trunk road will be to remain on the trunk road and continue to Queensferry Interchange. Leave the trunk road via the eastbound off slip road and re-join the trunk road on the westbound carriageway. Proceed westbound to Aston Junction and leave the trunk road.

The alternative route for eastbound traffic from Higher Aston wishing to join the trunk road will be via Aston Road eastbound to Queensferry Interchange and join the trunk road.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2014).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE